OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 273 (Cy.36)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Chwefror 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Chwefror 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2010.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008(**3**) yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Yn erthygl 5(a) yn lle "hyd a chan gynnwys 31 Mawrth 2012, mai £6,500 neu lai yw gwerth ardrethol yr hereditament, a £5,000 neu lai ar ôl y dyddiad hwnnw" rhodder "o 1 Ebrill 2010 ymlaen, mai £7,800 neu lai yw gwerth ardrethol yr hereditament".

(3) Yn erthygl 7(ch) yn lle "£6,500" rhodder "£7,800" ac yn lle "£9,000" rhodder "£11,000 am y cyfnod o 1 Ebrill 2010 hyd 31 Mawrth 2012".

(4) Yn erthygl 11(a) yn lle "£2,000" rhodder "£2,400".

(5) Yn erthygl 11(b) yn lle "£2,000" rhodder "£2,400".

---

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**3**) O.S. 2008/2770 (Cy.240).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

6 Chwefror 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2010 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") drwy ddiwygio'r rhyddhad ardrethi 25% a 50% cyffredinol a'r rhyddhad ardrethi manwerthu 25%, fel na fydd y trothwy ar gyfer rhyddhad yn gostwng yn dilyn ailbrisio ardrethi annomestig yn 2009. Mae'r diwygiadau yn sicrhau bod y busnesau hynny y cynyddwyd eu prisiadau yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, ac sydd ar hyn o bryd o fewn y trothwyon rhyddhad, yn parhau o fewn y trothwyon rhyddhad.

Mae erthyglau 5 ac 11 o Orchymyn 2008 yn cael yr effaith o ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r hyn a bennir yn yr erthyglau hynny, (a) rhyddhad ardrethi o 50% i hereditamentau sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu lai; a (b) rhyddhad ardrethi o 25% i hereditamentau sydd â'u gwerth ardrethol yn fwy na £2,000 ond nid yn fwy na £6,500 (ond bydd y ffigur olaf yn £5,000 o 1 Ebrill 2012 ymlaen). Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu'r ffigur o £2,000 i £2,400 ar gyfer y rhyddhad ardrethi o 25%. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn cynyddu'r ffigur o £6,500 i £7,800 ar gyfer y rhyddhad ardrethi o 25%, o 1 Ebrill 2010 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diddymu'r ddarpariaeth gyfredol y byddai'r trothwy ar gyfer rhyddhad ardrethi o 25% yn £5,000 o 1 Ebrill 2012 ymlaen.

Mae erthyglau 7 ac 11 o Orchymyn 2008 yn cael yr effaith o ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r hyn a bennir yn yr erthyglau hynny, rhyddhad ardrethi o 25% i fangreoedd manwerthu sydd â'u gwerth ardrethol yn fwy na £6,500 ond nid yn fwy na £9,000. Daw'r rhyddhad hwn i ben ar 31 Mawrth 2012. Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu'r ffigur o £6,500 i £7,800 a'r ffigur o £9,000 i £11,000, am y cyfnod 1 Ebrill 2010 tan 31 Mawrth 2012.

Mae erthygl 11 o Orchymyn 2008 yn rhagnodi'r swm o E at ddibenion y fformiwla a gynhwysir yn adran 43(4A)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Y fformiwla honno sy'n darparu'r mecanwaith ar gyfer cyfrifo swm yr ardrethi sy'n daladwy mewn perthynas â hereditamentau penodol. Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu'r ffigur o £2,000 a ragnodir yn erthygl 11(a) a (b) i £2,400.